**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, enwir yr Achos Busnes dros Un Corff Amgylcheddol**

**Mai 2012**

---

Hoffwn ddiolch i Gadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd am eu safbwyntiau ac argymhellion a gyflwynwyd yn ymchwiliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r achos busnes o blaid corff amgylcheddol sengl. Mae'r adroddiad wedi bod yn ddefnyddiol i mi , a hoffwn gofnodi fy ngwerthfawrogiad o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wrth gasglu'r dystiolaeth a chyflwyno'r canfyddiadau.

Wrth i'r baich galwadau a osodir gan gymdeithas ar y gwasanaethau a ddarperir gan ein hadnoddau naturiol gynyddu, un o'r heriau allweddol a wynebwn yn yr unfed ganrif ar hugain yw canfod ffyrdd o sicrhau amgylchedd iach, cydnerth a chynhyrchiol, a fydd yn parhau i gyflenwi anghenion y gymdeithas gyfan, gan gynnal cyflogaeth a lles, yn awr ac yn y dyfodol.

Rhaid inni bennu ein blaenoriaethau yn y ffordd orau, er mwyn cyrraedd amcanion strategol ein hymrwymiadau amgylcheddol Ewropeaidd ac ymateb i'r risgiau a chyfleoedd sylfaenol sy'n ein hwynebu, yn hytrach na mynd i'r afael â symptomau unigol ar eu pen eu hunain. Os byddwn yn canolbwyntio ar wneud y defnydd cynaliadwy gorau posibl o'n hadnoddau naturiol, gellir disgwyl y bydd ein dull o weithredu yn dod â manteision, yn awr ac yn y dyfodol, i bobl, amgylchedd ac economi Cymru.

Er mwyn cyflawni hyn, y canlynol, yn fras, yw'r newidiadau allweddol a fydd yn ofynnol yn ein dulliau presennol o reoleiddio a rheoli:

- rheolaeth holistig a dulliau rheoleiddio integredig, a fydd adlewyrchu amrywiaeth a chymhlethdod yr amgylchedd, a'n cyd-ddibyniaeth ni a'r amgylchedd;
- canfod y ffyrdd gorau o gydweithio â natur er mwyn darparu buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd;
- cefnogi ymaddasu drwy ddatblygu'r cynefinoedd y bydd arnom eu hangen yn y dyfodol;
- sefydlu dimensiwn gofodol cryf, sy'n seiliedig ar leoedd, gan y bydd y defnydd gorau o dir neu ddŵr yn amrywio'n fawr o le i le;
- datblygu dulliau o weithredu mewn partneriaeth, a fydd yn ein galluogi i gynnwys y gymuned ehangach.

Bydd gweithredu fel hyn yn galw am bwyso, mesur a gosod blaenoriaethau ar gyfer y llu galwadau sy'n cystadlu am gyfran o'n hadnoddau naturiol er mwyn darparu gwahanol wasanaethau i'r gymdeithas – sy'n amrywio o werth cynhenid yr amgylchedd a hamdden i reoli perygl llifogydd, cynhyrchu bwyd a darparu tir ar gyfer adeiladu. O ganlyniad, bydd Llywodraeth Cymru'n gweithredu yn lleol ac yn genedlaethol, i gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd amgylcheddol, economaidd a

chymdeithasol a fydd ar gael i Gymru fel cenedl.  Yn ein gwaith, wrth symud ymlaen i wireddu'r cynigion ar gyfer Corff Sengl,  byddwn yn ymgorffori'r dulliau uchod  ac yn symud tuag at sefydlu'r ecosystemau cydnerth y bydd arnom eu hangen er mwyn cyrraedd y  canlyniadau a ddymunwn.

Er mwyn cyrraedd yr amcan hwn, bydd yn ofynnol ailedrych ar ei trefniadau, ein systemau a'n prosesau cyfredol.  Rhaid gwneud yn gwbl eglur mai'r cymhelliad  sy'n ei ysgogi yw'r angen i ganfod cyfleoedd i ddefnyddio ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, mewn partneriaeth â thirfeddianwyr, ffermwyr, pysgotwyr, busnesau a chymunedau lleol. Bydd y Rhaglen Cymru Fyw, ynghyd â'r datblygiadau polisi y bydd eu hangen i gefnogi'n Biliau Datblygu Cynaliadwy, Amgylchedd a Chynllunio, yn darparu cyfle i edrych yn fwy gwrthrychol ar sut y gall hyn weithio, yn ymarferol.

Mae'r cynnig i greu corff sengl yn rhoi cyfle i edrych o'r newydd  ar brosesau, ac i leihau dyblygu a biwrocratiaeth, yn ogystal â symleiddio a gwella'r amgylchedd rheoleiddiol  i fusnesau.  Nodwyd hyn yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru, 'Adnoddau Naturiol Cymru – Trefniadau Arfaethedig ar gyfer Sefydlu a Chyfarwyddo Corff Newydd i Reoli Adnoddau Naturiol Cymru'.

Cynaliadwyedd sy'n cael y lle canolog yn agenda Llywodraeth Cymru ac yn ein Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi ymrwymo i ddeddfu ar ddatblygu cynaliadwy**.** Credaf y bydd creu corff sengl newydd yn cyfrannu'n uniongyrchol i'r ymrwymiad hwnnw; bydd yn sicrhau y byddwn yn diogelu ein hamgylchedd a'n adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac yn eu gwella a'u defnyddio er lles pobl Cymru, yn awr ac yn y dyfodol.

Bydd adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn  darparu gwybodaeth ddefnyddiol ac yn fy helpu i ddatblygu  fy safbwyntiau ymhellach; hoffwn ddatgan fy niolch unwaith eto i'r Pwyllgor am ei waith caled.

**Rwyf wedi nodi isod fy ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad.**

| |
|---|
| **Mae'r Pwyllgor yn argymell:**<br>**1.  Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw'r gallu masnachol sy'n bodoli o fewn Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cael ei golli, a'i fod yn cael ei brif-ffrydio yng ngwaith y corff newydd. Dylid adeiladu ar yr arbenigedd masnachol hwn er mwyn gwella'r ffocws masnachol ym mhob agwedd arall ar fusnes y corff newydd.** |

**Ymateb: Derbyn**

Rwyf yn  cytuno gyda'r argymhelliad hwn ac yn cadarnhau mai dyna yw fy mwriad.  Fy nymuniad yw sicrhau y bydd sgiliau masnachol a gwybodaeth ddigamsyniol Comisiwn Coedwigaeth Cymru ar gael yn ehangach, ym mhob rhan o'r gwaith a gyflawnir gan y sefydliad newydd.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim. Byddai hyn yn rhan o'r costau gweithredu trosiannol y darperir ar eu cyfer yn yr achos busnes.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**
**2. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y sefydlir trefniadau cadarn i gadw ar wahân swyddogaethau caniatáu a chynghori y corff sengl**

**Ymateb: Gwrthod**

Roedd y papur ymgynghori yn cydnabod bod angen gwahanu swyddogaethau pan fo hynny'n briodol. Enghraifft o hynny fyddai cynghori ynghylch cadwraeth mewn perthynas ag Arfarniad Amgylcheddol Strategol pan fo'r corff ei hunan yn hyrwyddo'r cynllun neu brosiect. Yn yr achos hwnnw, byddai posibilrwydd o wrthdrawiad buddiannau, a rhaid fyddai ymateb i hynny. Bydd angen sefydlu uned, sydd ar wahân yn swyddogaethol o fewn y Corff Sengl, i ymdrin â'r materion hyn.

Yn fwy cyffredinol, fodd bynnag, rydym yn awyddus i sefydlu trefniadau a fydd yn darparu'r canlyniadau gorau i'r amgylchedd, a hefyd yn darparu gwasanaeth cadarn a rhagweladwy i gwsmeriaid. Nid oes unrhyw wrthdrawiad buddiannau rhwng rôl y cynghorwr a rôl y rheoleiddiwr – bydd y ddau o dan yr un ddyletswydd greiddiol i ddiogelu'r amgylchedd – fel y mae'r cyrff unigol yn ei wneud ar hyn o bryd. Yn fy marn i, yr ystyriaethau allweddol yw y dylai'r gwaith o wneud penderfyniadau rheoleiddio effeithiol fod yn annibynnol ar y broses wleidyddol; ac y dylai penderfyniadau fod wedi eu seilio ar resymeg dryloyw a chyfreithlon, sy'n cydbwyso'r holl fuddiannau perthnasol a thrwy hynny yn diogelu'r amgylchedd

Rwyf o'r farn y gellir cyflawni hyn orau drwy wreiddio'r swyddogaeth o gynghori yn gadarn o fewn y broses o ganiatáu, a chynnwys y staff cynghori arbenigol o'r camau cyntaf oll wrth wneud y penderfyniadau allweddol. Bydd y dull hwn hefyd yn ein galluogi i ddarparu gwell proses, a fydd yn symlach ac yn achosi llai o oedi.

Roedd yr atebion i'r ymgynghoriad yn dangos bod cefnogaeth eang i'r dull hwn o weithredu, ar yr amod ein bod yn cynnwys mesurau a fydd yn sicrhau tryloywder y penderfyniadau arwyddocaol. Bydd mabwysiadu'r dull hwn yn galw am weithredu methodoleg fanwl a thryloyw wrth gofnodi ar ba seiliau y gwneir penderfyniadau ynghylch caniatadau unigol.

Am y rhesymau hyn, er fy mod o blaid gwahanu swyddogaethau rheoleiddiol a gweithredol y corff, nid wyf o blaid gwahanu cynghori a rheoleiddio. Felly, ni allaf gefnogi'r argymhelliad hwn gan y Pwyllgor.

Fodd bynnag, byddaf yn gofyn i swyddogion ystyried y ffordd orau y gallwn sicrhau tryloywder yn y trefniadau hyn, wrth inni ddatblygu ein cynigion a chynllunio'r strwythurau trefniadol.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim.  Cyflenwir unrhyw gostau gweinyddol ychwanegol o gyllidebau’r rhaglenni presennol.

**Mae’r Pwyllgor yn argymell:**
**3. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad oes unrhyw ddirywiad ym mherfformiad nac ansawdd y gwasanaeth a ddarparir gan y tri chorff presennol yn ystod y cyfnod trawsnewid.**

**Ymateb: Derbyn**

Rhaid inni gydnabod y bydd angen tynnu rhai staff allan o’r cyrff i ymgymryd â’r gwaith trosiannol, gan gyfrannu gwybodaeth ac arbenigedd i’r trafodaethau.

Fodd bynnag, o gymharu â holl waith y cyrff yng Nghymru, canran fach iawn fydd hynny – llai na 3% o’r cyfanswm. Ar hyn o bryd, credaf y bydd modd ymdopi â hynny heb wanhau’r gwaith creiddiol na’r perfformiad yn sylweddol. Ar gyfer pob un o’r cyrff, rwyf wedi cymeradwyo rhestr gytunedig o’r gweithgareddau y bydd yn rhaid eu cynnal yn ystod y cyfnod trawsnewid; a bydd fy swyddogion yn monitro perfformiad y cyrff yn y cyfamser. Rwyf hefyd wedi gofyn i’r cyrff roi gwybod imi am unrhyw anawsterau arwyddocaol sy’n codi yn ystod y cyfnod trawsnewid.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim.  Cyflenwir unrhyw gostau gweinyddol ychwanegol o gyllidebau’r rhaglenni presennol.

**Mae’r Pwyllgor yn argymell:**
**4. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y llwybr tuag at greu diwylliant sefydliadol newydd a chydlynol drwy uno tri sefydliad sydd â diwylliannau gwahanol yn cael ei nodi’n glir, a bod canlyniadau ymarferol i randdeiliaid yn sgil y newid sefydliadol sylweddol hwn yn cael eu datgan yn glir.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae’r gwaith o roi sylw i’r materion hyn wedi cychwyn eisoes, a disgwyliaf i Brif Weithredwr a Bwrdd y Corff Sengl newydd chwarae rhan weithgar wrth arwain y newid hwn.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim.  Cyflenwir unrhyw gostau gweinyddol ychwanegol o gyllidebau’r rhaglenni presennol.

**John Griffiths,**
**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**